# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Awel Tywi**

**Cartref Awel Tywi**
**Heol Bethlehem**
**Llandeilo**
**SA19 6SY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

27/06/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Awel Tywi

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Lleoedd cofrestredig | 38 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 30/03/2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r rheolwr yn cael cefnogaeth dda gan yr Unigolyn Cyfrifol i ddarparu gwasanaeth a gaiff ei werthfawrogi gan y bobl sy'n byw yn Awel Tywi, eu perthnasau a'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac mae'n defnyddio ei hymweliadau a dulliau amrywiol i archwilio ansawdd er mwyn sicrhau bod ganddi drosolwg da o'r gwasanaeth.

Mae'r staff gofal wedi'u hyfforddi'n dda, maent yn wybodus ynghylch y bobl sy'n cael gofal a chymorth ganddynt ac ategir hyn gan y rhai sy'n byw yn y gwasanaeth a'u perthnasau.
Mae'r cofnodion gofal yn cyfleu'r unigolion yn dda, yn adlewyrchu eu hanghenion gofal presennol ac yn cynnwys yr unigolion a/neu eu cynrychiolwyr.

Mae'r amgylchedd yn lân ac mae rhaglen barhaus ar waith ar gyfer paentio ac uwchraddio. Mae'r addurniadau mewnol yn helpu'r bobl i ganfod eu ffordd o gwmpas yn annibynnol ac mae'r gerddi cymunedol yn cynnig lleoedd i'r bobl gymdeithasu a dilyn eu hobïau a'u diddordebau.

## Llesiant

Caiff dewisiadau a barn y bobl eu cydnabod. Mae'r bobl yn personoli eu hystafelloedd gwely ac yn dewis eu prydau bwyd. Maent yn codi ac yn mynd i'r gwely pan fydd yn gyfleus iddyn nhw. Caiff yr unigolion a/neu eu cynrychiolwyr eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal. Caiff eu barn am y gwasanaeth ei cheisio gan yr Unigolyn Cyfrifol yn ystod ei hymweliadau Rheoliad 73 a thrwy holiaduron a ddefnyddir i lywio'r adroddiadau ar Ansawdd y Gofal bob chwe mis. Mae'r bobl yn sgwrio yn Gymraeg a chânt wybodaeth yn Gymraeg os mai hon yw eu dewis iaith.

Mae'r bobl yn derbyn y gofal sydd ei angen arnynt. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus, wedi'u hyfforddi'n dda ac yn poeni am yr unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent hefyd yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl a'r ffordd orau o ddiwallu'r rhain. Mae'r cofnodion gofal yn cynnwys gwybodaeth am ofynion a dewisiadau'r bobl. Mae'r gwasanaeth yn cydgysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cadw mor iach â phosibl.

Mae'r bobl yn ddiogel rhag y risg o niwed a chamdriniaeth. Gall y bobl a/neu eu cynrychiolwyr godi pryderon am y gwasanaeth os bydd angen iddynt wneud hynny. Mae gweithdrefnau recriwtio, goruchwylio a hyfforddiant cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod gan y staff y sgiliau, y wybodaeth a'r dulliau gofalu cywir. Mae'r staff yn parchu'r rheolwr a'r dirprwy reolwr sy'n cael cefnogaeth dda gan yr Unigolyn Cyfrifol. Mae'r staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu'r bobl a chânt eu cefnogi gan bolisïau a gaiff eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

Mae'r amgylchedd yn sicrhau llesiant y bobl. Mae'r addurniadau mewnol yn helpu'r bobl i ganfod eu ffordd eu hunain o amgylch y coridorau neu i'w hystafelloedd gwely. Mae'r gerddi yn cynnig lle diogel i'r bobl ymlacio, cwrdd ag ymwelwyr a dilyn eu hobïau a'u diddordebau.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn derbyn y gofal sydd ei angen arnynt. Mae'r staff gofal yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent yn gwybod am hanes yr unigolion a'u hanghenion gofal penodol yn unol â'u dewisiadau dyddiol. Mae'r gwasanaeth wrthi'n newid i ddefnyddio system cofnodion gofal electronig. Mae'r cofnodion gofal y gwnaethom eu gweld yn rhoi darlun da o'r unigolyn, ei arferion dyddiol a'i anghenion gofal a chymorth penodol. Caiff yr asesiadau risg ategol eu hadolygu'n rheolaidd hefyd. Ceir tystiolaeth gadarn i ddangos bod y bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal.

Dywedodd y bobl, eu perthnasau a gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r gwasanaeth wrthym eu bod yn teimlo bod y gofal a'r cymorth a ddarperir yn gyson dda a dywedwyd, *"I am very happy living in Awel Tywi, the carers are great", "its lovely here",* ac *"I have absolutely no concerns about my mother living here. The carers are very good, they are kind and patient"*

Caiff gweithwyr iechyd a gweithwyr meddygol proffesiynol eu cynnwys yn y broses o ofalu am y bobl a rhoi cymorth iddynt pan fo angen. Mae cysylltiadau da â'r practis meddyg teulu lleol ac mae'r meddygon teulu yn parhau i ymweld â'r gwasanaeth yn wythnosol. Caiff hyn ei ddogfennu'n dda yn y cofnodion gofal. Dywedodd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol wrthym, *"the manager and carers are all very good. They know the residents and care for them very well. They do basic dressings for us and follow instructions well".* Mae'r gwasanaeth yn rhan o'r cynllun 'Gwên am Byth' sy'n rhoi arweiniad gwerthfawr a hyfforddiant ar iechyd y geg i bobl sy'n agored i niwed.

Yn ystod nifer o arsylwadau drwy gydol yr arolygiad, gwelsom fod y staff gofal yn rhyngweithio'n garedig iawn â'r bobl. Mae nifer o'r staff yn cyfathrebu yn Gymraeg â'r bobl, a gwelsom enghreifftiau o hyn yn ystod yr arolygiad. Mae'r bobl yn dewis pryd i godi a mynd i'r gwely, mae opsiynau amrywiol ar gyfer prydau bwyd bob amser ac mae gwybodaeth ddwyieithog ar gael bob amser.

Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel. Yn ystod trafodaethau â'r bobl, dywedwyd wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yn Awel Tywi a'u bod yn gallu codi pryderon os bydd angen iddynt wneud hynny. Dywedwyd wrthym; *"I know I can speak to [manager] or one of the carers if I am concerned about anything", "I'd just let [manager] know if there was something wrong, he'll deal with it".* Dywedodd perthnasau wrthym y byddent yn teimlo eu bod yn gallu codi pryderon os bydd angen iddynt wneud hynny; *"I know if I had any concerns I could speak to [manager] or a member of the team and it would be sorted".* Caiff manylion am weithdrefn gwyno Cyngor Sir Caerfyrddin eu darparu i'r bobl wrth iddynt symud i'r gwasanaeth a'u harddangos mewn ardaloedd cymunedol.

## Yr Amgylchedd

Caiff risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu lleihau. Mae'n ofynnol i bob ymwelydd lofnodi wrth fynd i mewn ac allan o'r gwasanaeth. Caiff amrywiaeth o wiriadau ac archwiliadau cynnal a chadw eu cynnal. Caiff y cyfarpar diffodd tân a'r cyfarpar symud a chodi a chario eu profi a'u cynnal a'u cadw o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEP) wedi'u teilwra ar gyfer pob unigolyn ac ar gael yn hawdd. Mae'r ardaloedd cymunedol a'r allanfeydd argyfwng yn daclus ac yn rhydd rhag peryglon.  Caiff sylweddau peryglus i iechyd (COSHH) eu storio'n ddiogel. Caiff systemau mynediad bysellbad eu defnyddio lle yr ystyrir eu bod yn ofynnol ac mae'n ofynnol i bob ymwelydd lofnodi wrth fynd i mewn ac allan o'r gwasanaeth. Mae larymau argyfwng yn hawdd eu cyrraedd i'w defnyddio gan y bobl ac mae'r staff yn ymateb iddynt yn amserol. Mae'r gwasanaeth yn lân ac nid oes unrhyw arogleuon drwg. Mae mesurau priodol wedi'u rhoi ar waith er mwyn tynnu sylw'r bobl at y drysau patio yn uned Tŷ Dinefwr er mwyn eu hatal rhag anafu eu hunain.

Cefnogir y bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Er bod y décor wedi dyddio mewn mannau, mae'r coridorau cymunedol yn llawn lluniau, gwaith celf ac arddangosfeydd er mwyn helpu'r bobl i ganfod eu ffordd i'w hystafelloedd gwely. Mae'r darparwr yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Tân o ran y décor, yr arddangosfeydd a'r arwyddion yn ardaloedd cymunedol y gwasanaeth. Mae'r ystafelloedd ymolchi cymunedol yn lân ac yn fwy croesawgar gan fod gwaith celf wedi cael ei roi ar y wal o amgylch y bath. Mae rhaglen adnewyddu barhaus ar waith ar gyfer paentio ac addurno'r gwasanaeth. Gwelsom nifer o ystafelloedd gwely a oedd wedi cael eu hailaddurno. Caiff yr ystafelloedd gwely eu personoli gan y bobl yn unol â'u dymuniadau a'u hoff bethau, gan gynnwys lluniau, ffotograffau, ornamentau ac eitemau bach o ddodrefn.

Caiff y gerddi cymunedol eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn apelgar i'r bobl eu defnyddio. Mae nifer o ardaloedd eistedd a gwelyau wedi'u codi a borderi sy'n cynnwys digon o blanhigion a llwyni. Gwelsom y bobl yn defnyddio'r ardd i gymdeithasu ac i ofalu am eu planhigion ffrwythau a llysiau. Dywedodd un unigolyn wrthym, "*I enjoy growing the tomatoes and cucumbers. I give them to the kitchen to use".*

Mae'r ardd sydd wedi'i chynllunio gan ddeall Dementia yn cynnig cyfleoedd i'r bobl fwynhau'r amgylchedd yn ddiogel wrth archwilio pwyntiau o ddiddordeb, gan gynnwys ardal synhwyraidd a nodwedd ddŵr. Gwelsom un unigolyn yn cerdded o amgylch yr ardd, yn arogli'r blodau ac yn eistedd yn yr ardd. Roedd yn amlwg ei fod yn mwynhau treulio amser yn yr ardd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl yn cael gofal gan dîm o staff gwybodus a hyfforddedig sy'n cael ei gefnogi'n dda. Mae'r gweithwyr gofal yn deall y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn dda a gallant ddarparu manylion am yr unigolion yn eu gofal a'u hanghenion gofal penodol. Mae'r gweithwyr gofal yn ymgymryd ag amrywiaeth eang o gyrsiau hyfforddiant gorfodol a phenodol Gwnaethant ddweud wrthym
*"I have attended a range of training including Dementia care and oral care"* a *"we have lots of training and great support to complete the QCF qualification. I am about to complete Level 2".* Mae'r cofnodion yn cadarnhau bod y staff yn ymgymryd ag amrywiaeth o gyrsiau hyfforddiant. Dangosodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldeb i amddiffyn y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a rhoi gwybod am unrhyw bryderon. Dywedodd un o'r gweithwyr gofal wrthym, *"I would speak to a senior, the deputy or the manager if I have any concerns about a resident, their safety is paramount".* Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwylio a gaiff eu dogfennu yn rheolaidd ynghyd ag arfarniad blynyddol; cadarnhawyd hyn gan y staff y siaradwyd â nhw. Roedd cofnodion y sesiynau goruchwylio a'r arfarniadau yn cadarnhau yr hyn a ddywedwyd wrthym.

Caiff y rheolwr ei gefnogi'n dda ac mae'n teimlo bod ganddo gydberthynas waith broffesiynol iawn â'r Unigolyn Cyfrifol. Mae'r gweithwyr gofal yn canmol y rheolwr a'r dirprwy reolwr ac yn siarad yn gadarnhaol am weithio yn y gwasanaeth. Dywedwyd wrthym, "*I feel well supported by the manager and deputy. They listen to staff if we raise any concerns or issues", "[manager] is very good. He is always there if needed"* ac *"It's a lovely home to work in, [manager] and [deputy] are great and very supportive".*

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl bod trefniadau llywodraethu trylwyr ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol mewn cysylltiad rheolaidd â'r gwasanaeth ac mae wedi cwblhau ymweliadau Rheoliad 73. Mae AGC wedi cael copïau o'i adroddiadau, sy'n dangos ei bod yn siarad â'r bobl a'r staff fel rhan o'r ymweliadau â'r gwasanaeth. Gwnaeth y staff a'r bobl gadarnhau hyn gyda ni. Mae amrywiaeth o adnoddau monitro ac archwiliadau ar waith. Caiff y camau sy'n deillio o'r archwiliadau eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae prosesau recriwtio a dethol cadarn ar waith. Caiff y gwiriadau a'r cliriadau cywir eu cynnal a'u dogfennu cyn i'r staff ddechrau eu cyflogaeth.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r Datganiad o Ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir ac mae AGC yn cael gwybod am ddigwyddiadau yn briodol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/09/2023